30 mun

# Sut 'Rydyn Ni'n Defnyddio Dŵr

**Yr offer sydd ei angen**

- Argraffwch neu rhannwch y lluniau ar ddalen R_WQ_1 (1-2), un i bob dosbarth/grŵp
- Bwrdd gwyn mawr ar gyfer nodiadau trafod
- Siswrn
- Marcwyr a darnau papur gludiog
- Dyfeisiau sy'n gallu cyrraedd y rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd

**I gwblhau'r gweithgaredd**

1. Dechreuwch drwy drafod gyda dysgwyr y gwahanol ffyrdd y caiff dŵr ei ddefnyddio bob dydd. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am enghreifftiau, e.e. coginio, yfed, ymolchi, cynhyrchu pŵer, neu ar gyfer bywyd gwyllt. Ysgrifennwch eu syniadau ar y bwrdd gwyn o dan ddau bennawd: "Defnydd Dŵr" a "Ffynonellau Dŵr" (e.e. afonydd, llynnoedd, dŵr daear, cronfeydd dŵr).

2. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Dosbarthwch y lluniau a'r labeli categoreiddio ar dudalen R_WQ_1 i bob grŵp. Gofynnwch i bob grŵp drefnu'r lluniau yn y categorïau priodol a thrafod pam mae pob llun yn perthyn i'r categori hwnnw.

3. Rhowch gyfle i bob grŵp gyflwyno'r categorïau y maent wedi'u didoli ac egluro'u rhesymeg. Trafodwch unrhyw orgyffwrdd neu achosion amwys (e.e., gallai dyfrio gardd gael ei ystyried yn weithgaredd cartref neu amaethyddol).

4. Gan ddefnyddio darnau papur gludiog, gofynnwch i'r dysgwyr drafod ac ychwanegu syniadau am sut y gellir arbed dŵr neu ei reoli'n well mewn gwahanol gategorïau.

**Defnydd Personol/ Cartref**

Yfed, coginio, ymolchi/ glanhau

**Defnydd Diwydiannol/ Masnachol**

Golchi ceir, cynhyrchu ynni (gorsaf ynni), systemau oeri

**Defnydd Amaethyddol**

Dyfrhau cnydau, da byw, dyframaeth (ffermio pysgod)

**Defnydd Hamdden**

Pwll nofio, pysgota, parciau dŵr

**Defnydd Cymunedol**

Diffodd tân, ffynhonnau dŵr, glanhau strydoedd

**Defnydd Amgylcheddol/ Bywyd Gwyllt**

Afonydd, llynnoedd a gwlyptiroedd

































